Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllaw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27



Hydref 2025

Dyma Gyllideb Ddrafft Amlinellol Llywodraeth Cymru sy'n esbonio ein buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol fel iechyd, addysg a thrafnidiaeth.


# Mae gennym gyllideb o **£27.6bn** ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn yr un meysydd â 2025-26, gan ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol fel iechyd, addysg a thrafnidiaeth. Mae'r gyllideb hon yn sicrhau sefydlogrwydd i wasanaethau cyhoeddus - dim ond dechrau'r broses gyllidebol yw hi, nid y diwedd.



# Trethi Datganoledig Cymru

Rydym yn codi rhywfaint o'n harian yng Nghymru drwy drethi sydd wedi'u datganoli. **Tua 20% o'n cyllideb gyfan** yw'r arian hwn. Rydym yn gallu gwneud penderfyniadau ar y trethi hyn i ddod â mwy o arian i Gymru.




- **Cyfraddau Treth Incwm Cymru:** Mae Llywodraeth Cymru yn gallu pennu ei chyfraddau treth incwm ei hun, sy'n cael eu casglu gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi.
- **Y Dreth Trafodiadau Tir:** Treth i'w thalu os byddwch yn prynu eiddo neu dir dros drothwy pris penodol yng Nghymru, sy'n cael ei chasglu gan Awdurdod Cyllid Cymru.
- **Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi:** Treth ar wastraff i annog llai ohono, sy'n cael ei rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru.
- **Ardrethi Annomestig:** Mae ardrethi busnes yn cael eu codi ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig, fel: siopau; swyddfeydd; tafarndai; warysau; ffatrïoedd; tai gwyliau neu dai llety.

# Y Grant Bloc

Mae cyfran o gyfanswm yr arian sy'n cael ei godi drwy drethi yn y DU yn dod i Gymru drwy grant bloc gan Lywodraeth y DU.



**80% o grant bloc gan Lywodraeth y DU**

Pan fydd gwariant yn cynyddu ar wasanaethau yn Lloegr, **mae Cymru hefyd yn cael cyllid ychwanegol** yn y meysydd rydym yn gyfrifol amdanynt, fel iechyd ac addysg. Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu sut orau i ddefnyddio'r arian hwn ar gyfer pobl yng Nghymru.

# Sut mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu?

**Trethi Datganoledig**


| Y Grant Bloc | Ardrethi Annomestig | Cyfraddau Treth Incwm Cymru | Y Dreth Trafodiadau Tir | Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | Benthyca |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| £21.9bn | £1.2bn | £3.9bn | £400m | £35m | £150m |


**Cyllideb Cymru**


# Sut byddwn yn gwario ein harian

| | Cyfanswm Dyraniad Refeniw a Chyfalaf 2026-27[1] | Newidiadau ers 2025-26[2] | |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | £ 13, 047 m | £ 272 m | 2.08% |
| Tai a Llywodraeth Leol | £ 6, 896 m | £ 147 m | 2.13% |
| Addysg | £ 2, 232 m | £ 45 m | 2.01% |
| Trafnidiaeth | £ 1, 222 m | £ 24 m | 2.01% |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | £ 838 m | £ 17 m | 2.00% |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | £ 716 m | £ 14 m | 1.99% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | £ 458 m | £ 9 m | 2.09% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | £ 156 m | £ 3 m | 1.98% |

*[1]Dyma gyfanswm y llinell sylfaen adnoddau cyllidol a chyfalaf a gynyddwyd ar gyfer 2026-27.*
*[2]Dyma'r newidiadau rhwng y llinell sylfaen ddiwygiedig a'r llinell sylfaen a gynyddwyd.*


Yr Economi, Ynni a Chynllunio
3.21%
Cyfiawnder Cymdeithasol
0.63%
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
3.51%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu
1.79%
Trafnidiaeth
4.82%
Addysg
8.62%
Refeniw a Chyfalaf wedi'u cyfuno (£m)
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
50.42%
Tai a Llywodraeth Leol
27%
% y cyfanswm ar gyfer pob maes o wariant Llywodraeth Cymru


Yr Economi, Ynni a Chynllunio
£490m
2.20%
Cyfiawnder Cymdeithasol
£144m
0.64%
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
£586m
2.63%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu
£445m
2.00%
Trafnidiaeth
£697m
3.12%
Addysg
£1,852m
8.29%
Cyllid Refeniw (£m)
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
£12,423m
55.64%
Tai a Llywodraeth Leol
£5,690m
25.48%
Cyllid (£m)
% o'r cyfanswm


Cyllid Cyfalaf (£m)
Cyfiawnder Cymdeithasol
£18m
0.53%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu
£18m
0.53%
Yr Economi, Ynni a Chynllunio
£312m
9.09%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
£626m
18.22%
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
£312m
9.09%
Trafnidiaeth
£551m
16.05%
Tai a Llywodraeth Leol
£1,215m
35.37%
Addysg
£382m
11.12%
Cyllid (£m)
% o'r cyfanswm

# Proses y Gyllideb

Mae hon yn Gyllideb Ddrafft, sy'n rhoi gwybod i bobl sut yr hoffai Llywodraeth Cymru wario ei harian. Ni fydd y Gyllideb yn cael ei chadarnhau hyd nes y bydd y Senedd yn pleidleisio i'w phasio.

Dyma Gam Un y Gyllideb Ddrafft, sy'n cyhoeddi cynlluniau trethiant a phenderfyniadau gwariant lefel uchel. Mae'n dweud wrthym faint o arian fydd yn cael ei wario ym mhob maes polisi fel iechyd, llywodraeth leol ac addysg.

**Bydd Cam Dau ar 3 Tachwedd 2025** a bydd yn cyhoeddi'r penderfyniadau manwl ym mhob adran o ran sut mae'r arian yn cael ei wario.

Bydd Aelodau'r Senedd yn craffu ar y cynlluniau ar gyfer y Gyllideb yn ystod misoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr a byddwn yn ystyried eu barn wrth inni baratoi'r Gyllideb Derfynol.

Mae'n bosibl y bydd Gyllideb Derfynol yn wahanol i'r Gyllideb Ddrafft a bydd yn cael ei chyhoeddi ar **20 Ionawr 2026, gyda phleidlais yn y Senedd ar 27 Ionawr.**

Mae rhagor o wybodaeth am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gael yma:

**www.llyw.cymru/cyllideb-ddrafft-2026-2027**

Os oes gennych gwestiynau neu adborth, cysylltwch â:

**TrysorlysCymru@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52873, ISBN digidol 978-1-80633-572-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg